

**CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI**  
**COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH, 14 CHWEFOR 2023 A GYNHALIWDY**  
**YNG NGHANOLFAN TALYSARN AM 7.00 O'R GLOCH.**

1. **Presennol** - Gwyndaf Roberts (Cad), Hefina Roberts, Christine Hughes - Llanllyfni, Dafydd Thomas - Nebo, Gareth Jones, Harry Wyn Owen, Siân Dafydd - Talysarn, Judith Humphreys, Justin Davies, Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Eryl Williams, Dylan Herbert - Penygroes, Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** – Ffion Jones – Nantlle.

Roedd yna aelodau o'r cyhoedd yn bresennol er mwyn clywed trafodaeth y Cyngor Cymuned ar bwynt 13 o'r agenda - Safle Taldwrst, Lôn Ddŵr, Llanllyfni.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a rhoddodd groeso i'r aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Gofynnodd i bawb roi eu ffonau symudol i ffwrdd rhag tarfu ar y cyfarfod. Esboniodd bod y cyfarfod am ddechrau gyda phwynt 13.

13. **Safle Taldwrst, Lôn Ddŵr, Llanllyfni** - tros y mis diwethaf y Cyngor Cymuned wedi derbyn nifer o gwynion gan aelodau'r cyhoedd am ddatblygiad Safle Taldwrst a hefyd y nifer o lorïau sydd yn trafelio ar hyd Lôn Ddŵr i fynd i'r safle yn ddyddiol. Gofynnwyd i Cyng. Peter Thomas adrodd ar beth mae o wedi bod yn ei wneud ynglŷn â'r mater. Adroddodd ers 1af Rhagfyr 2022 pan fu i'r lorïau ail-ddechrau trafelio ar y ffordd eu bod bellach yn dod mewn confois a'i fod wedi cysylltu gyda'r datblygwr am hyn ac mae'r ymateb a gafwyd oedd bod yn well fel hyn na fesul un a dwy. Roedd Cyng. Thomas wedi dweud nad oedd yn hapus gyda hyn a bod angen lleihau'r nifer a dim eu gyrru mewn confois. Yna yn dilyn gwyliau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd pan ail-ddechreuwyd eto roedd yna lawer mwy eto o lorïau yn trafelio yn ddyddiol - hyd at 40 rhai diwrnodau. Bryd hyn dywedwyd mai tair wythnos o waith oedd yna ond hyd yn hyn mae'r lorïau yn dal i fynd yn ddyddiol. Cyng. Thomas wedi cysylltu gyda'r datblygwr eto ddoe ac wedi cael ymateb eu bod wedi gostwng y niferoedd oherwydd y cwynion a oedd wedi eu derbyn, ond oherwydd hyn y buasai'r gwaith yn mynd ymlaen am yn hirach - o leiaf tair wythnos arall. Roedd wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r tyllau yn y ffordd ar Lôn Ddŵr a'r bod yn dweud bod y rhan helaeth o hyn oherwydd y tywydd rhewllyd sydd wedi bod yn ddiweddar. Adroddodd Justin Davies ei fod wedi edrych drwy gofnodion ac ar y cais gwreiddiol a bod yna amod yn y cais hwn yn dweud mai pum llwyth lori yn ddyddiol oedd fod a hyn dros gyfnod o ddwy flynedd. Hefyd roedd amod mai rhwng 8yb a 6yh oedd amseroedd trafelio Llun i Wener a 8yb tan 1yh ar ddydd Sadwrn ac nad ydynt i drafeilio ar amseroedd mae plant yn mynd i'r ysgol. Gofynnodd Harry Owen faint o waith sydd ar ôl ar y safle - nid oedd neb yn gwybod, a gofynnodd a oedd yna unrhyw un o Gyngor Gwynedd yn monitro'r gwaith. Codwyd y mater gan Judith Humphreys bod person wedi cael anafiadau difrifol ar y ffordd gan drafnidiaeth a oedd efallai yn mynd i Safle Taldwrst, ond cododd y cadeirydd mater arall bod person hefyd wedi disgyn i dwll chwarel ac wedi derbyn anafiadau difrifol sydd yn golygu ei fod yn gorfod derbyn triniaethau am amser hir iawn yn dilyn hyn, gweddill ei oes efallai, ond nid oes neb yn cofio son am y person hwn a dyna pam bod angen cau y tyllau er mwyn diogelwch. Dywedodd hefyd bod y person a gafodd anaf ar y ffordd yn cerdded pan oedd yn dywydd garw ofnadwy a'i bod yn gwisgo dillad tywyll nad oedd modd efallai i yrrwr y cerbyd ei gweld, ac nad oes cadarnhad bod y cerbyn dan sylw yn trafelio i'r chwarel hyd y gwŷr. Nodwyd bod llawer wedi rhoi gwrthwynebiad yn erbyn y cais ond bod Cyngor Gwynedd dal wedi ei dderbyn. Cynigiodd Barry Bracegirdle y dylid gofyn i swyddog o Gyngor Gwynedd ddod i gyfarfod a'r Cyngor Cymuned i esbonio'r sefyllfa a pam nad oes neb yn ei monitro. Cynigiodd Justin bod y Cyngor Cymuned yn edrych drwy'r cwynion sydd wedi eu derbyn a gwneud llythyr i Gyngor Gwynedd yn codi'r pwyntiau a hefyd yn eilio'r cynnig bod swyddog yn dod i gyfarfod y Cyngor Cymuned. Angen gofyn iddynt hefyd beth maent am wneud ynglŷn â'r amodau sydd wedi eu torri a gofyn pryd mae'r gwaith am ddod i ben. Gofynnodd Dylan Herbert os oedd cais wedi ei roi fewn am y tipio yn y tyllau? Meddwl efallai bod cais wedi ei roi fewn am hyn. Y clerc i yrru llythyr nawr i swyddogion Cyngor Gwynedd am y materion hyn a gofyn iddynt ymateb o fewn 10 diwrnod.

Bu i'r cyhoedd adael y cyfarfod ac aethpwyd ymlaen gyda gweddill yr agenda.

Cydymdeimlwyd gyda Siân Dafydd a'r teulu yn eu profedigaeth o golli nain Siân. Llongyfarchwyd Peter Bridges ar ei swydd newydd fel pennaeth Ysgol Hirael, Bangor a hefyd llongyfarchwyd Gwyndaf Roberts am ddod yn daid am y tro cyntaf.

2. **Datgan buddiant** – roedd Siân a Harry yn datgan diddordeb ym mhwynt 12, Gwaredu llain o dir yn Gloddfa Glai, Talysarn a Justin a Judith yn datgan diddordeb ym mhwynt 14, Panel Richard Wilson Nantlle.

3. **Gwadd - Steffan Llŷr Williams** - yn anffodus nid oedd Steffan yn medru bod yn bresennol ond roedd wedi cysylltu gyda Judith am y mater a bu iddi adrodd i'r pwyllgor ar ei ran. Dyma'r diweddariad am y clwb ieuenctid:-

- Wedi bod yn llwyddiannus i recriwtio 3 aelod o staff fel Gweithwyr Ieuenctid rhan amser yn dilyn cyfweiliadau wythnos ddiwethaf.
- Mi fyddent angen cwblhau DBS a hyfforddiant craidd cyn cael cychwyn eu cyflogaeth yma gyda Chyngor Gwynedd.
- Mewn cyswllt gyda'r ganolfan hamdden fel lleoliad i'r clwb ieuenctid am y tro.
- Y clybiau ieuenctid yn rhedeg o Fedi i Ebrill (30 wythnos) felly dim ond oddeutu mis a hanner o ddarpariaeth fydd yma cyn ail gychwyn ym mis Medi. Y staff yn hapus gyda'r trefniant yma.
- Ni fydd y Cyngor Gwynedd yn codi unrhyw dâl am ariannu clybiau cymunedol yn y flwyddyn ariannol yma.

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 10fed Ionawr 2023** - cynigiodd Barry ac eiliodd Erfyl fod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - adroddwyd na fydd y cyfyngiadau parcio yn mynd ymlaen ar Allt Doli a Heol Dŵr, Penygroes. Trigolion Llanllyfni yn ddiolchgar am y gwelliannau sydd wedi eu gwneud i'r ffordd. Cynigiodd Dylan y dylid diolch i Gyngor Gwynedd am y gwaith a gofyn a oes cynllun i atgyweirio'r ffordd yn gyfan gwbl.

6. **Adroddiadau Cyngorwyr Sir** – roedd pawb wedi derbyn adroddiadau gan Cyng. Peter Thomas a Cyng. Craig ab Iago ymlaen llaw i'r cyfarfod a rhoddwyd cyfle i unrhyw un godi unrhyw fater ynglŷn â'r adroddiadau. Mae Judith am wneud ymholiadau ynglŷn â beth ydi'r 'Litter App'. Diolchwyd i Peter a Craig am yr adroddiadau.

7. **Materion Pentrefi - Penygroes** - Gyl i flaen 1 Trem Yr Wyddfa mae tyfiant yn tyfu o'i chwmpas ac angen ei lanhau. Twll yn rhan Cyngor Gwynedd o'r ffordd tu allan i safle Wynnstay sydd yn beryglus ac angen sylw. Cyflwr y Stryd Fawr dal yn gwaethygu. Graffiti wedi ei wneud tu allan i'r Stad Ddiwydiannol - adroddodd Ceri ei bod wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am hyn a bod rhywun wedi bod allan i'w lanhau ond bod angen dod yn nôl - Ceri am eu holi pryd fydd hyn yn cael ei wneud. Safle bws - disgwyl am ymateb ynglŷn â rheolau beth sydd fod i gael ei osod a hefyd disgwyl i gael gwybod lle mae'r trims ac os ydi'r CCTV yn gweithio ac wedi codi unrhyw beth. Justin am gyfarfod gyda Designer Sings er mwyn cael pris paneli i roi ar y safle. **Talysarn** - Edrych fel bod byrst dŵr o dan y tarmac ar Ffordd Rhiwlas ac angen sylw. Binau bob ochr i'r CPD yn orlawn ac angen ei gwagio. Twll wedi ailymddangos ar Lôn yr Eglwys ac angen sylw. Angen rhoi silicon o gwmpas y fframiau ar ôl y gwaith ar yr Ystafelloedd Newid neu bydd dŵr yn mynd fewn. **Nebo** - Allt Lôn Pant y Gog yn torri i lawr yn ofnadwy ac yn bennaf rŵan yn gerrig i gyd yn hytrach na tharmac. Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau / sefydliadau ynglŷn â'r materion hyn.

8 a 9. **Is-bwyllgor cyllid (01/02/23) a Thaflen ariannol a chyllid** - roedd dau lythyr wedi eu derbyn yn dilyn dyddiad cau'r ceisiadau ariannol yn gofyn am arian gan y cyngor cymuned. Yn anffodus gan fod y dyddiad cau wedi bod ar arian wedi ei rannu ni ellir rhoi cyfraniad eleni, ond croeso iddynt geisio at y flwyddyn nesaf - y clerc gysylltu gyda nhw yn esbonio hyn. Hefyd eisiau esbonio i un ohonynt nad yw'r cyngor yn cael rhoi arian i ysgol ond bod croeso i'r cyfeillion roi cais i mewn. Roedd pawb wedi derbyn copi o gofnodion yr is-bwyllgor cyllid a gynhaliwyd ar 1af Chwefror a hefyd copi o'r gyllideb. Cynigiodd Harry ac eiliodd Ceri i dderbyn y gyllideb a hefyd yr awgrymiadau a oedd wedi eu gwneud yn yr is-bwyllgor. Esboniodd Gareth i bawb y rhesymau dros yr awgrymiadau ac awgrymodd y dylid cael cyfarfod arall ddechrau mis Ebrill i drafod sut i rannu'r arian fydd dros ben o eleni. Diolchwyd i Gareth am ei waith.

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - angen trefnu dyddiad ar gyfer is-bwyllgor er mwyn trafod prisiau claddu. Holodd Dylan os oes proses yn ei le o fonitro bod gwaith yn cael ei wneud. Angen holi'r contractwyr am anfoneb a hefyd

rhestr o'r gwaith maent wedi ei wneud yn ddiweddar. Hefyd gofynnwyd i'r clerics atgoffa'r contractwyr bod angen torri'r mynwentydd cyn Sul Y Mamau (19/03), Sul Y Blodau (02/04) a Sul Y Tadau (18/06). Angen hefyd gwneud ymholiadau i gael rhywun i ddod i edrych ar y cerrig beddi.

11. **Prydles Cwtin** - wedi derbyn copi o brydles ddrafft gan Yr Orsaf, ond esboniodd Siân mai pentelerau oedd y rhain a dim prydles. Aeth Siân drwy'r pwyntiau yn y pentelerau a nodwyd yn dilyn trafodaeth bod angen nodi ym mhwynt 5 y bydd rhent o £100 y flwyddyn yn cael ei godi a hefyd bod hyn i'w adolygu bob 3 mlynedd ac nad oes dim cyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned. Hefyd, nodi ym mhwynt 11 bod angen yswiriant cyfredol ar Yr Orsaf dros y darn tir. Angen gwneud yn siŵr bod cais cynllunio yn ei le cyn bod y telerau yn cael ei basio. Y clerics i gysylltu gyda Gwenillian o'r Orsaf am hyn.

12. **Gwaredu llain o dir yn Gloddfa Glai, Talysarn** - bu i Cyng. Peter Thomas, Siân Dafydd a Harry Owen adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth hon. Roedd pawb wedi derbyn copi o'r llythyr ynglŷn â gwaredu darn o dir yn Gloddfa Glai. Trafodwyd y mater a chynigiodd Gareth nad oedd dim gwrthwynebiad ond efallai yn syniad rhoi amodau nad yw'r darn tir i gael ei ddefnyddio at ddiben datblygiad adeiladu tŷ ayyb. Hefyd, buasai yn braf gweld rhywfaint o'r arian y buasai Cyngor Gwynedd yn ei dderbyn am y tir yn cael ei wario yn benodol yn Nhalysarn. Cytunodd pawb gyda chynigion Gareth ac felly'r clerics i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ddatgan hyn.

14. **Panel Richard Wilson Nantlle** - darllenodd y clerics e-bost a oedd wedi ei dderbyn gan Angharad Tomos ynglŷn â gosod y panel dan sylw yn Nantlle ac esboniodd Justin ychydig bach mwy am y mater cyn iddo ef a Judith adael y cyfarfod tra roedd y drafodaeth yn mynd ymlaen. Bwriad y prosiect yw i ddyblu maint y panel sydd yn y gilfan yn barod ond eu bod yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gymryd y cais cynllunio ymlaen. Gofynnodd Gwyndaf os ydynt yn cymryd hyn ymlaen a ydi'r cyngor yn agor drysau i bethau eraill. Trafodwyd bod ceisiadau gan Yr Orsaf o hyd yn dod fewn funud olaf a hyn yn golygu bod pwysau yn cael ei roi ar y Cyngor Cymuned i wneud penderfyniadau heb gael llawer o amser i edrych fewn a thrafod. Pwysig pwynti hyn allan iddynt. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol nad oedd dim gwrthwynebiad ond bod rhaid cael amodau cadarn na fydd dim cyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned nac ychwaith unrhyw gostau.

15. Ceisiadau Cynllunio - C23/0008/22/DA - Ty'n Llan, Lôn Eglwys, Talysarn - cais datblygiad ansylweddol i newid y cynllun llawr mewnol - DIM GWRTHWYNEBIAD. C22/0909/22/LL - Fferm Taldrwst, Lôn Ddŵr, Llanllyfni - dymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd ynghyd a gosod suddfan ddŵr a chyfarpar offer trin carthion preifat - DIM GWRTHWYNEBIAD.

16. Gohebiaeth – nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn dros y mis.

17. Materion ariannol – cytunwyd i dalu – Nia Jones – ffôn a rhyngrwyd £25.00. RJ Electrics £3531.00 a Cyngor Gwynedd cyfraniad blynyddol oriau agor llyfrgell Penygroes £1346.80.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.